

ISHMAEL (ISFAEL) (fl. 6ed ganrif) sant

Enw: Ishmael
Rhiant: Buddig
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: sant
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Thomas Jones Pierce

Haedda sylw oherwydd ei gysylltiadau clos â chyfoeswyr mwy enwog. Dywedir fod **Teilo** yn ewythr iddo a Tyfei ac **Oudoceus** yn frodyr. Ymddengys hefyd ymhlith disgyblion **Dewi Sant**; yn "Llyfr Llandaf" dywedir mai ef a ddilynodd y sant hwnnw yn Nhyddewi. Yn Nyfed yn unig y coffeir ei barch; gydag un eithriad, yn Sir Benfro yn unig y ceir eglwysi ar ei enw; yn wir, dywed traddodiad i'w dad, Buddig, tywysog Llydewig, fyw am gyfnod yn alltud yn Nyfed lle y priododd Anauved, chwaer **Teilo**.

Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

Ffynonellau

Baring-Gould a John Fisher, *The Lives of the British Saints: the saints of Wales and Cornwall and such Irish saints as have dedications in Britain*V, iii, 323

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: *Isfael*

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: *Q13129278*

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government